

CRONFA CEFNOGI PLANT AELODAU O'R LLUOEDD ARFOG MEWN ADDYSG YNG NGHYMRU: CYFARWYDDIADAU A CHANLLAWIAU 2019-20

Cefndir

Mae'r Gronfa Cefnogi Plant Aelodau o'r Lluoedd Arfog Mewn Addysg yng Nghymru¹ gan Lywodraeth Cymru wedi'i hystreyn ar gyfer 2019/20 i oresgyn y bwlch yn y cymorth sydd ar gael i ysgolion ac awdurdodau lleol oherwydd y gostyngiad yn y cyllid o Gronfa Cefnogi Addysg y Weinyddiaeth Amddiffyn, sydd bellach yn ei blwyddyn olaf. Mae £250,000 ar gael ar gyfer y flwyddyn academaidd 2019/20 i gynorthwyo ysgolion a gynhelir yng Nghymru a mynd i'r afael â'r heriau y gall plant aelodau o'r Lluoedd Arfog eu hwynebu oherwydd eu ffordd o fyw, gan gynnwys effeithiau symudedd a lleoli.

Caiff y gronfa newydd ei gweinyddu a'i rheoli ar gyfer Llywodraeth Cymru gan Brosiect Cynorthwyo Plant Milwyr yn Ysgolion Cymru (SSCE Cymru), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Nod SSCE Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yw darparu'r gefnogaeth addysgol orau bosibl i blant, trwy sicrhau bod gweithwyr addysg proffesiynol yn deall y materion gall plant aelodau o'r Lluoedd Arfog yng Nghymru eu hwynebu. I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.sscecymru.co.uk.

Roedd y ceisiadau a oedd yn llwyddiannus y llynedd yn ymwneud ag ystod eang o fentrau, ac roedd pob un ohonynt wedi gallu darparu tystiolaeth gref o sut y byddai eu cynnig yn helpu plant aelodau o'r Lluoedd Arfog a'r ysgol i oresgyn heriau eu ffordd o fyw. Roedd y ceisiadau hefyd yn dangos perthynas dda gyda chymuned y Lluoedd Arfog.

Canllawiau 2019-20

Rydym yn chwilio am geisiadau a fydd yn rhoi'r sgiliau i blant aelodau o'r Lluoedd Arfog allu ymdopi â heriau eu ffordd o fyw nawr a thrwy gydol eu haddysg. Croesewir ceisiadau sy'n dangos effaith hirdymor a chyfnewid gwybodaeth â'r ysgol, rhwng staff ac ar draws clystyrau o ysgolion. Byddem yn annog ysgolion i ymgeisio mewn clystyrau er mwyn gallu rhannu adnoddau a sgiliau ar draws ysgolion lleol.

Mae ceisiadau i Gronfa 2019-20 am flwyddyn yn unig. Caiff y taliadau eu gwneud erbyn diwedd Rhagfyr 2019 ar gyfer blwyddyn academaidd 2019-20. Bydd archwiliadau'n cael eu cynnal gan SSCE Cymru ym mis Rhagfyr 2020 i sicrhau bod yr arian wedi'i wario fel y nodwyd yn y cais a hefyd i asesu effaith y cynllun.

CYFARWYDDIADAU

Pwy sy'n gymwys i wneud cais

I fod yn gymwys, mae'n rhaid i'r ysgol fod yng Nghymru a rhaid iddi gynnwys o leiaf un disgybl sy'n blentyn i aelod o'r Lluoedd Arfog. At ddiben y gronfa hon, diffiniad SSCE Cymru o blentyn aelod o'r Lluoedd Arfog yw:

- Plentyn y mae un riant neu'r ddau yn gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog ar hyn o bryd
 - Plentyn y mae ei riant/rhieni yn gwasanaethu fel aelodau wrth gefn o'r Lluoedd Arfog
- Neu
- Plentyn y mae ei riant/rhieni wedi gadael y Lluoedd Arfog yn y 18 mis diwethaf, ac sydd felly wedi profi symudedd neu leoli yn ddiweddar.

Gellir derbyn ceisiadau gan:

- a. Ysgolion a gynhelir
- b. Colegau chweched dosbarth
- c. Grwpiau o ysgolion (anogir 'ceisiadau clwstwr')
- d. Awdurdodau lleol ar ran yr ysgolion yn eu hardal sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus.

Os yn ymgeisio fel clwstwr, gall ysgol unigol hefyd gyflwyno cais ar wahân cyn belled â'i fod ar gyfer menter wahanol (ni chaniateir cais dwbl).

Ddim yn gymwys

- a. Darparwyr gofal plant
- b. Sefydliadau addysg uwch/addysg bellach
- c. Sefydliadau masnachol neu'r rheini a fyddai'n codi tâl ar gyfer darparu eu cynnig i ysgolion; enghraifft, ni fyddai modd i sefydliad gael grant i ddatblygu cwrs hyfforddi y byddai'n codi tâl ar ysgolion i'w fynychu.

Meini prawf

Rhaid i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth bod yr ysgolion yn wynebu heriau penodol oherwydd effaith ffordd o fyw'r Lluoedd Arfog ar blant y rheini sy'n gwasanaethu. Gall yr heriau hyn godi oherwydd effaith **symudedd** neu am fod rhieni'n cael eu **lleoli**.

- **Mae symudedd yn golygu bod teulu cyfan yn symud o un lleoliad i un arall gan arwain at symud ysgol i'r plentyn.**
- **Mae lleoli yn golygu bod y sawl sy'n gwasanaethu oddi cartref, naill ai ar weithrediad neu ymarfer hyfforddiant hirdymor. Nid yw o reidrwydd yn golygu mewn parth gwrthdaro.**

Dyma rai o'r heriau y gall plant aelodau o'r Lluoedd Arfog eu hwynebu mewn addysg:

- Symud ysgol sawl gwaith
- Effaith emosiynol gwahaniad.
- Effaith emosiynol yn ystod cyfnod lleoli'r riant
- Effaith emosiynol pan fydd riant yn dychwelyd o leoliad
- Effaith ar ffordd o fyw'r teulu pan fydd riant/rhieni'n gadael y Lluoedd Arfog
- Ailadrodd rhannau o'r cwricwlwm (ar ôl symud)
- Colli rhannau o'r cwricwlwm (ar ôl symud)
- Addasu i gwricwlwm gwahanol mewn gweinyddiaethau gwahanol
- Gwneud ffrindiau
- Methu ffrindiau a theulu o ysgol/cartref blaenorol
- Dysgu Cymraeg
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol

- Dewis pynciau TGAU (nad ydynt ar gael o bosibl os ydynt yn symud ysgol)
- Cyrraedd yr ysgol
- Dewis o ysgol
- Dryswch wrth ddysgu rhannau o'r cwricwlwm sy'n gysylltiedig â swydd eu rheini (e.e. rhyfel neu grefydd).

Ni ellir defnyddio'r Gronfa ar gyfer prosiectau seilwaith. Mae cyfraniadau at ailwampio ar raddfa lai, fel addasu gofod presennol ac offer dan do neu awyr agored, yn dderbyniol.

Dylai unrhyw gais llwyddiannus lle mae angen cyflogi staff sicrhau fod pawb yn ymwybodol nad ydynt yn cael eu cyflogi gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru na Llywodraeth Cymru, ond gan yr ymgeisydd llwyddiannus.

Nid yw dyfarnu grant yn ymrwymiad i gyllid pellach a dylid ei ystyried fel un taliad yn unig ar gyfer y cyfnod ymgeisio dan sylw.

Mae gan ymgeiswyr hawl i wneud un cais unigol yr un a gallant hefyd gael eu cynnwys mewn cais ar y cyd neu gais clwstwr gydag ysgolion eraill.

Canllawiau ar y ffurflen gais

Gwnaed ceisiadau i'r gronfa ar gyfer ystod eang o brosiectau, cynlluniau a mentrau ac nid oes patrwm pendant ar gyfer cais llwyddiannus. Mae angen i'r cais ddangos y canlynol:

- a. beth mae'r prosiect yn bwriadu ei wneud
- b. sut mae'n helpu i oresgyn effeithiau symudedd neu leoli
- c. sail dystiolaeth
- d. gwerth am arian
- e. prawf o ymgysylltu â'r gymuned Gwasanaethu
- f. unrhyw fuddion hirdymor.

Ni ddylid cynnwys unrhyw ddeunydd ychwanegol gyda'r cais ac ni fydd aelodau'r panel yn darllen unrhyw wybodaeth arall. Bydd y cais yn cael ei farnu ar sail cynnwys y ffurflen.

Dylai ymgeiswyr gydymffurfio â'r nifer geiriau, ac os bydd mwy o eiriau na'r hyn a ganiateir bydd ceisiadau'n cael eu gwrthod.

Rhaid cwblhau'r ffurflenni cais a'u cyflwyno'n electronig.

Ni ddylid cynnwys unrhyw ddata personol sy'n ymwneud â phlant.

Nodiadau ar gyfer cwblhau'r ffurflen gais

Note 1. Os ydych yn cyflwyno cais ar y cyd, darparwch restr o **bob** ysgol sy'n rhan o'r cais gan nodi eu cyfeiriad, cyfanswm y plant a chyfanswm y plant sydd o gymuned y Lluoedd Arfog.

Note 2. Gwahanwch unrhyw ran o'r cais a'u prisio'n unigol er mwyn i'r Panel Cyllido allu nodi'n hawdd gyfleoedd ar gyfer cyllid rhannol (gall hyn gynyddu'r tebygolrwydd y cewch gyllid rhannol o leiaf). Mae'n bosibl y bydd yna oedi wrth ddyrannu arian os na ddarperir dadansoddiad o gostau neu os ydynt wedi'u cyfrif yn anghywir.

Note 3. Sylwadau gan aelod o'r Lluoedd Arfog. Gall fod yn ddefnyddiol, a chryfhau'r cais, i gael cefnogaeth gan aelod o'r Lluoedd Arfog. Gall y person hwn roi cyd-destun cymuned y Lluoedd Arfog yn yr ardal dan sylw. Gall fod yn aelod o'r Lluoedd Arfog heblaw'r rhiant, neu'n aelod o Banel Rhanbarthol y Lluoedd Arfog. Gweler dogfen SSCE Cymru '[Plant aelodau o'r Lluoedd Arfog - canllawiau cyllido i ysgolion](#)' am ragor o wybodaeth.

Note 4. Oherwydd y galw uchel am arian, gellir rhoi cyllid rhannol ac felly mae'n ddefnyddiol gwybod beth yw blaenoriaethau'r cais.

Sgorio

Mae'r Gronfa wedi'i chyfyngu i £250,000 yn 2019/2020 ac nid yw wedi'i warantu mewn blynyddoedd dilynol. Caiff pob cais ei adolygu a'i sgorio gan banel cyllido sy'n cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, SSCE Cymru, a Chyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Ni fydd y panel yn rhagdybio dim nac yn ystyried unrhyw dystiolaeth atodol. Bydd y ceisiadau'n cael eu sgorio yn ôl cynnwys y ffurflen gais yn unig.

Caiff pob cais ei ystyried yn ôl teilyngdod. Ni roddir blaenoriaeth i un categori dros un arall, nac i lwyddiant cais blaenorol.

Nid oes proses apelio – bydd ceisiadau'n seiliedig ar gynnwys a chryfder y cais. Bydd y ceisiadau hynny nad ydynt yn llwyddiannus yn derbyn adborth gan SSCE Cymru sy'n seiliedig ar sylwadau'r panel.

Amser

Bydd angen cyflwyno ceisiadau erbyn 30 Medi 2019 - nid oes unrhyw eithriadau i hyn. Ni fydd y panel yn ystyried unrhyw gais a ddaw i law ar ôl hyn.

Bydd pob ymgeisydd yn cael cydnabyddiaeth bod y cais wedi'i dderbyn ynghyd â chyfeirnod unigryw. Rhaid nodi'r cyfeirnod mewn unrhyw ohebiaeth ddilynol. **Eich cyfrifoldeb chi yw holi am y cyfeirnod unigryw hwn os nad ydych yn ei dderbyn o fewn pum niwrnod gwaith i gyflwyno eich cais.**

Rhaid i'r ymgeisydd gysylltu â ssce@wlga.gov.uk i roi gwybod am unrhyw newid i'w cyfeiriad e-bost/manylion cyswllt.

Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod erbyn 31 Hydref 2019 a yw eu cais yn llwyddiannus ai peidio. Bydd y taliadau'n cael eu gwneud erbyn diwedd mis Rhagfyr 2019.

Archwilio

Cynhelir archwiliadau o gronfeydd 2019-20 ym mis Rhagfyr 2020. Bydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ar ran Llywodraeth Cymru, yn gofyn am brawf o wariant er mwyn sicrhau ei fod yn unol â'r cais ac unrhyw dystiolaeth o'i effaith.

Help a chymorth

Dylid anfon cwestiynau a ffurflenni cais wedi'u cwblhau i ssce@wlga.gov.uk.